

CHAPTER



Anim-18 Llawrydd: Dathlu Animeiddio Prydeinig, Rheolwr/wraig Prosiect (rhan amser – tymor sefydlog)

Adran : Ffilm, Sinema a Chanolfan Ffilm Cymru (FHW)
Teitl y swydd: Anim18: Dathlu Animeiddio Prydeinig, Rheolwr/wraig Prosiect R&D
Ffi: Hyd at £175 y dydd, yn dibynnu ar brofiad (yn cynnwys unrhyw NI a PAYE)
Contract: Hyd at 51 diwrnod (tymor sefydlog Mai - Medi 2017)
Atebol i: Cyfarwyddwr Sinema, Chapter
Cyfrifol am: NA

Diben y Swydd

Cefnogi FHW/Chapter gyda chymrwil a datblygu cais am gyllid datblygu rhaglen (PDF) i'r Sefydliad Ffilm Prydeinig (BFI) a fydd â'r nod o ddarparu rhaglen ddatblygu cynulleidfau DU eang yn 2018, yn dathlu animeiddio Prydeinig.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

- Arwain ar ymchwil dichonoldeb DU gyfan o'r prosiect, gweithredu fel pwynt cyfathrebu canolog rhwng Canolfan Ffilm Cymru, partneriaid a'r BFI, mapio logisteg y tymor yn y dyfodol,
- Datblygu ymchwil i glirio hawliau ffilmiau, partneriaid animeiddio allweddol, Partneriaid Strategol BFI fel ICO ac IntoFilm
- Archwilio'r potensial ar gyfer comisiynau arloesol *Scratch and Sniff*, sgoriau byw gwreiddiol i ffilmiau mud, digwyddiadau teithio etc
- Cydlynu gyda rhanddeiliaid, mynychu cyfarfodydd partneriaid perthnasol i gynrychioli'r prosiect
- Sgyrsiau dilyn i fyny gyda dosbarthwyr allweddol ynghylch ffilmiau newydd i ddod i drafod sut y gallem gydweithio ar draws marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, adnoddau, digwyddiadau a chyfleoedd eraill.
- Ymchwilio i adnoddau cyfredol a rhai potensial i fod ar gael i bartneriaid y prosiect trwy gydol y tymor
- Cwblhau'r broses mynegi diddordeb gyda phartneriaid DU, casglu gwybodaeth ar gyfer cais cam 2 i BFI (i'w gyflwyno ym mis Awst 2017),
- Parhau'r sgyrsiau gyda BFI a phartneriaid eraill ynghylch technegau gwerthuso priodol ar gyfer cais cam 2, llunio briffiadau ar gyfer partneriaid allanol lle mae angen,
- Cwblhau cais cyllid cam 2 i BFI, sicrhau bod y rhaglen yn parhau i gwrdd â'r themâu golygyddol, diwylliannol a chreadigol a nodir yn y briff gwreiddiol ac yn rhedeg yn unol â'r llinell amser,
- Gweithio gyda Rheolwr Strategol FHW a Chyfarwyddwr Datblygu Chapter i hyrwyddo sgyrsiau ynghylch nawdd a chyllid yn y dyfodol,
- Gweithio gyda Rheolwr Strategol FHW i sicrhau bod y prosiect yn cadw at y gyllideb,
- Rheoli'r prosesau adrodd cam 1 yn unol â dyddiadau cau adrodd BFI, sicrhau bod yr holl ddeunyddiau'n cael eu rhannu a'u casglu,
- Dyletswyddau cyffredinol a gweinyddol eraill fel bo'r angen, lle mae'n berthnasol ac yn berthynol i'r briff.
- Adrodd yn ôl i FHW/Sinema ar yr uchod,

Amrywiol

- Unrhyw ddyletswyddau eraill fel ag y bo'n rhesymol ofynnol gan y Cyfarwyddwr Sinema, Canolfan Ffilm Cymru a'r Prif Weithredwr.
- Bod yn gyfarwydd gya'r holl weithdrefnau lechyd a Diogelwch, gweithdrefnau gweithrediadol, personel, gofal cwsmer, diogelu data ac ariannol, sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r holl rwymedigaethau statudol, yn enwedig mewn perthynas â deddfau trwyddedu a chymorth cyntaf.
- Rhaid cyflawni dyletswyddau deiliad y swydd mewn cydymffurfiaeth gyda pholisi Cyfle Cyfartal Chapter, sicrhau cyfle cyfartal i bob person yn fewnol ac yn allanol i Chapter.

Dydy'r swydd ddigrifiad yma ddim wedi'i bwriadu fod yn gyflawn. Disgwylir i ddeiliad y swydd fabwysiadu ymagwedd hyblyg tuag at y dyletswyddau allai orfod cael eu hamrywio (yn dilyn trafodaeth gyda deiliad y swydd) yn amodol i anghenion y corff, ac yn unol â phroffil cyffredinol y swydd.

MANYLEB PERSON

Sgiliau/galluoedd hanfodol

- Ymrwymiad i amcan BFI o ymestyn ehangder, dyfnder a chyrhaeddiad dewis ffilm i gynulleidfaedd amrywiol.
- Addysg i lefel gradd neu gyfwerth,
- Sgiliau rheoli prosiect ardderchog, profedig,
- Gwybodaeth waith da o ffilm
- Sgiliau cyfathrebu ardderchog, ar y ffôn, yn bersonol ac mewn ysgrifen,
- Profiad o godi arian a'r rôl y mae hynny'n chwarae mewn cyflawni prosiect,
- Y gallu i gynrychiol'r prosiect yn hyderus i gysylltiadau allanol neu mewn digwyddiadau cyhoeddus,
- Ymagwedd ragweithiol tuag at dasgau, cyflwyno atebion creadgol i broblemau,
- Y gallu i weithio i amserlen, deall sut y mae hyn yn effeithio ar aelodau'r tîm,
- Sgiliau trefnyddol a rheoli amser cryf
- Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun ac ar amrywiol dasgau
- TG llythrennedd, yn cynnwys y we a chyfryngau cymdeithasol
- Gwybodaeth waith o gyllidebau,

Dymunol

- Profiad o ddelio gyda'r wasg a'r cyfryngau
- Gwybodaeth waith neu ddiddordeb mewn animeiddio
- Y gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg
- Trwydded car ac yn berchen ar gar.

Ceisiadau

Fe fydd rhestr fer ar gyfer cyfweiliadau yn seiliedig ar ymgeiswyr yn diwallu'r meini prawf hanfodol a restrir yn y swydd ddisgrifiad. Anfonwch eich cais, yn cynnwys enwau a rhifau ffôn dau ganolwr at:

Susan Powell
Rheolwraig Adnoddau Dynol
Canolfan Gelfyddydau Chapter
Market Road
Caerdydd
CF5 1QE
Susan.powell@chapter.org

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ydy 5pm 26 Ebrill. Cynhelir y cyfweiliadau ar ddydd Mercher 3 Mai.